Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pecyn Cyfnod Allweddol 4

Dd.
Nodiadau canllaw Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2012

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y pecyn hwn at:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6014

e-bost: IMS@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn **dysgu.cymru.gov.uk**

ISBN digidol 978 0 7504 8512 8
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17118

Set Ddata Graidd Cymru Gyfan
Cyfnod Allweddol 4

Nodiadau Cyfarwyddyd

Trosolwg

Mae Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion yng Nghymru wedi'u seilio ar ffocws cryf ar hunanwerthuso, her a chymorth.

Nod Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yw darparu cyfres gyson a chytbwys o ddadansoddiadau cyd-destunol a gefnogir gan gyfarwyddyd a hyfforddiant. Fe'u bwriadwyd i helpu ysgolion i hunanwerthuso a gwella perfformiad ac i lywio gwaith gydag Estyn, Swyddogion Gwella Awdurdodau Lleol a chonsortia.

Cynlluniwyd Set Ddata Graidd Cymru Gyfan i ddarparu dadansoddiadau o ganlyniadau arholiadau allanol a chyfnodau allweddol mewn fformatau sefydlog. Mae hefyd yn cymharu perfformiadau trwy ddefnyddio ystod o ffactorau cyd-destunol. Mae'r adroddiadau wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i bawb sy'n rhan o'r broses hunanwerthuso ysgolion. Mae'r adroddiadau hefyd yn cefnogi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion trwy gyfrannu at ddatblygu diwylliant perfformiad uchel a thrwy hwyluso'r gwaith o rannu arferion da. Byddant hefyd yn cefnogi fframwaith arolygu 2010 Estyn trwy gyfrannu at weithdrefnau hunanwerthuso ysgolion a thrwy ddarparu setiau data cyson ar gyfer ysgolion a thimau arolygu.

Teuluoedd o Ysgolion

Nododd adroddiad 2008 Estyn na allai pob ysgol fynd ati yn hawdd i ystyried ei pherfformiad yn erbyn ysgolion tebyg a rhannu arferion da gan nad oedd gan lawer o awdurdodau lleol gytundeb ffurfiol rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion i rannu data perfformiad yn agored a/neu gan nad oedd yna, o bosibl, ysgolion addas i gymharu â nhw yn yr ardal.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu arferion da, mae Set Ddata Graidd Cymru Gyfan yn cynnwys data perfformiad cymharol sydd wedi'i gasglu o ysgolion tebyg eu cyd-destun. Sefydlwyd 'teuluoedd' o ysgolion trwy grwpio ysgolion yn seiliedig ar ddarpariaeth ieithyddol yn gyntaf, ac yna o fewn pob grŵp lefel uchel caiff ysgolion eu rhoi mewn trefn ddisgynnol, yn ôl gwerthoedd mynegrif 'her', a gyfrifir fel a ganlyn:

- 50% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; ynghyd â
- 30% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw mewn ardal a gaiff ei chyfrif fel ardal sydd o blith yr 20% o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc); ynghyd â
- 10% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n destun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA); ynghyd â
- 10% x cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd un ai'n newydd i'r iaith Saesneg (neu'r Gymraeg lle y bo'n berthnasol), sydd wrthi'n ei chaffael neu sy'n meithrin cymhwysedd.

Yn achos y tri newidyn cyntaf, defnyddir cyfartaledd tair blynedd o ddata o CYBLD 2008-2010, tra defnyddir data CYBLD 2010 yn unig ar gyfer y pedwerydd newidyn (casglwyd y data hwn am y tro cyntaf yn 2009 felly nid yw mor gadarn).

Caiff amddifadedd ei fesur gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2008, felly caiff disgyblion â chod post yn Lloegr eu heithrio o rifiadur ac enwadur yr ail newidyn.

Unwaith y caiff yr ysgolion eu rhoi yn eu trefn gan ddefnyddio'r mynegrif hwn, cânt eu rhannu'n grwpiau o oddeutu 11 er mwyn ffurfio'r teuluoedd.

Bydd y meini prawf a ddefnyddir i greu'r grwpiau'n sicrhau bod aelodau'r teuluoedd yn debycach i'w gilydd, gan sicrhau cymariaethau mwy teg. Trwy gymharu perfformiad eich ysgol gydag ysgolion eraill yn eich teulu, dylech allu nodi cryfderau a gwendidau'ch ysgol yn well. Dylech hefyd allu nodi ysgolion yn eich teulu sydd wedi cyflawni gwell canlyniadau mewn meysydd penodol. Bydd gwybod enwau'r ysgolion yn eich teulu'n eich galluogi i gysylltu â nhw i ofyn am gyngor ac i nodi arferion da. Hwyrach y bydd ysgolion yn eich teulu'n cysylltu â chi at ddibenion tebyg. O 2011 ymlaen bydd rhestr o'r holl deuluoedd ac aelodau'r teuluoedd ar gael drwy Ffynnon a'r awdurdodau lleol er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu arferion da.

Bu'r teuluoedd yn sefydlog am dair blynedd er mwyn rhoi digon o amser i ddatblygu perthynas rhwng ysgolion. Mae'r gwaith o ddatblygu teuluoedd o ysgolion yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac yn galluogi ysgolion i rannu arferion da'n fwy effeithiol. Nid yw'n atal trefniadau consortia neu glwstwr lleol. Yn hytrach, mae'n ehangu ac ategu cyfleoedd eraill i ledaenu arferion da.

Nid oes bwriad i ddefnyddio'r wybodaeth hon fel modd o greu 'tablau cynghrair'. O ganlyniad, mae hi'n bwysig cynnal cyfrinachedd a pheidio â chaniatáu i gyrff allanol ddefnyddio data teuluoedd ysgolion at unrhyw ddiben o'r fath.

Egwyddorion Cyffredinol

Er mwyn cyflawni gwaith hunanwerthuso effeithiol, mae'n rhaid i ysgolion ofyn tri phrif gwestiwn:

1. Pa mor dda rydym yn ei wneud?
2. Beth sydd angen ei wella?
3. Beth sy'n rhaid i ni ei wneud i wella?

Gall y pecyn data eich helpu i ateb y cwestiynau hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Mae'r graffiau perfformiad yn dangos canlyniadau cyfredol a thueddiadau perfformiad eich ysgol dros bum mlynedd. Mae'r graffiau hefyd yn dangos ystod o gymariaethau pwysig. Bydd hyn yn eich galluogi i ystyried canlyniadau'ch ysgol yn erbyn perfformiad lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag yn erbyn deilliannau ysgolion yn eich 'teulu'.
- Gall cymharu'ch canlyniadau â chanlyniadau ysgolion tebyg nodi cryfderau penodol a meysydd i'w datblygu h.y. meysydd y gellir eu gwella. Mae'n anochel y bydd gwahaniaethau go iawn (canran) mewn perfformiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, dylid canolbwyntio ar dueddiadau a gwahaniaethau cymharol mewn perfformiad er mwyn pennu cryfderau a meysydd sy'n destun pryder.
- Gall archwilio'r dulliau dysgu ac addysgu a ddefnyddir mewn ysgolion sy'n perfformio'n dda ac sy'n debyg o ran cyd-destun nodi strategaethau a fyddai'n helpu'ch ysgol i wella.

Nid yw data ar ei ben ei hun yn debygol o ddarparu atebion i faterion a nodwyd. Yn hytrach, mae'n codi cwestiynau y gall yr atebion iddynt ddatrys y problemau dan sylw o bosibl. Dim ond ysgolion all ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau, a hynny wrth ystyried data lefel perfformiad disgyblion ac ystod eang o wybodaeth gyd-destunol a all effeithio ar ganlyniadau disgyblion. Mae'r setiau data yn yr adroddiadau'n deillio o ddata lefel disgyblion sydd eisoes yn cael ei gadw mewn canolfannau. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar eu dadansoddiadau mewn meysydd penodol ac ar gyfer disgyblion unigol wrth archwilio materion sylfaenol a nodir yn yr adroddiadau.

Defnyddio'r Setiau Data

Cyflwynir y data mewn ffordd ddarluniol lle'n bosibl fel y gellir nodi tueddiadau a phatrymau'n haws ac fel bod y wybodaeth yn hygyrch i gynulleidfa eang. Lle bo graffiau'n amhriodol, mae tablau o ddata rhifiadol wedi'u symleiddio a'u cyflwyno mewn fformat cyson.

Nod y nodiadau cyfarwyddyd canlynol yw eich helpu i ddehongli'r tablau a'r graffiau yn eich pecyn data ysgol. Mae enghreifftiau o bob rhan o'r pecyn wedi'u cynnwys ac esboniadau wedi'u trefnu o dan dri phennawd:

1. **Beth mae'r graff yn ei ddangos?** – I ehangu ar deitl y graff i'ch helpu i ddeall a dehongli.

2. **Pam mae hyn yn bwysig?** – I nodi prif ddiben y data.

3. **Cwestiynu'r data –** I awgrymu cwestiynau i gwestiynu'r data. Mae cwestiynau nodweddiadol yn cynnwys:
   - Beth yw'r tueddiadau ar gyfer pynciau neu ddangosyddion perfformiad eraill?
   - Ym mha bynciau neu ddangosyddion perfformiad y mae disgyblion yn perfformio orau?

- Ym mha bynciau neu ddangosyddion perfformiad y mae disgyblion yn perfformio waethaf?
- Sut ydym yn cymharu â'r cyfartaledd lleol?
- Sut ydym yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol?
- Sut ydym yn cymharu ag ysgolion tebyg (h.y. meincnodi)?
- Pa ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar ganlyniadau ysgol disgyblion?

Cofiwch nodi themâu dros amser ac ar draws grwpiau o ddisgyblion neu feysydd pwnc ac ystyried materion a all godi yn y graffiau mewn cyd-destun.

Dim ond rhan o'r stori a geir yn y pecyn data; dylai pob ysgol, gyda chefnogaeth gan yr awdurdod lleol, ei ystyried ochr yn ochr â thystiolaeth a gwybodaeth leol arall er mwyn llywio gwaith hunanwerthuso, pennu targedau a chynllunio mewn ysgolion.

Mae'r pecynnau CA4 ar gyfer ysgolion uwchradd yn cael eu dosbarthu ar ffurf tri datganiad dros gyfnod. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymaint o wybodaeth â phosibl yn gynnar yn nhymor yr hydref ond yn ystyried y prosesau dilysu ac apelio ar gyfer data arholiadau allanol yn arbennig.

Am wybodaeth am ddyddiadau cyhoeddi ewch at y dudalen newyddion ar dudalen gartref Ffynnon.

Byddwn yn croesawu adborth – cysylltwch â ni drwy IMS@wales.gsi.gov.uk.

Rhybuddion Iechyd

Mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddehongli data, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

Data Coll
Hwyrach y bydd hi'n ymddangos bod rhywfaint o ddata wedi'i adael allan ar gyfer rhai ysgolion e.e. data Cymraeg neu Saesneg coll pan nad oedd gofyn i'r ysgol asesu neu pan nad oedd ganddi ddisgyblion oedd yn gymwys i'w hasesu mewn un iaith neu'r llall, neu ar gyfer blwyddyn benodol pan nad oedd disgyblion cymwys i'w hasesu yn y flwyddyn honno.

Ysgolion teulu coll
Hwyrach y bydd gan rai ysgolion lai o ysgolion yn eu teulu, naill ai gan fod y meini prawf wedi nodi nifer cyfyngedig o ysgolion tebyg neu gan nad oes unrhyw ddata ar gyfer rhai o ysgolion y teulu. Yn yr achosion hyn, hwyrach y bydd y graffiau teulu'n ymddangos yn anghyflawn.

Ysgolion â dosbarthiadau AAA wedi'u dynodi gan yr Awdurdod Lleol
Er bod cyfran y disgyblion sydd ar y cam gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â datganiad AAA yn un o'r meini prawf ar gyfer sefydlu teuluoedd o ysgolion, nid yw presenoldeb dosbarthiadau AAA yn faen prawf. Dylech ystyried yr effaith y gall hyn ei chael wrth werthuso'ch data.

Pwyntiau degol ar siartiau
Mae pob siart wedi'i gyfrifo i ddau le degol. Er hynny mae'n bosibl y bydd rhai siartiau yn dangos labeli data i un pwynt degol neu i sero pwynt degol yn unig. Y rheswm am hyn yw na all y system ddangos y 0 (sero) terfynol ar ôl y pwynt degol. Er enghraifft, bydd 90.00 yn ymddangos fel 90 a bydd 90.10 yn ymddangos fel 90.1.

Gwybodaeth Gyd-destunol Ysgolion

Siart 1.1a
Niferoedd Disgyblion - Ysgol



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos niferoedd y disgyblion ar y gofrestr ar gyfer y pum mlynedd diwethaf fel y'u cofnodwyd yn natganiad CYBLD mis Ionawr.

Pam mae hyn yn bwysig?
Ar y cyfan, mae hyn yn adlewyrchu maint yr ysgol a sut mae niferoedd disgyblion wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

Cwestiynu'r data
A yw niferoedd disgyblion wedi newid dros amser?
A oes yna duedd gynyddol neu ostyngol?
A yw niferoedd y disgyblion sy'n cofrestru'n debygol o newid?
A oes yna ddosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu ar y cyd?
A yw hyn wedi effeithio ar ddysgu neu safonau?
A oes yna ddosbarthiadau sydd wedi'u rhannu?
A yw hyn wedi effeithio ar ddysgu neu safonau?

Siartiau 1.1b
Ethnigrwydd

Cyfran y disgyblion yn ôl cefndir ethnig





Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r siart cylch yn dangos cyfrannau'r disgyblion gwyn Prydeinig a'r disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill (cyfunol) yn yr ysgol fel y'u cofnodwyd yn natganiad CYBLD mis Ionawr 2012. Dangosir ffigurau cymedrig yr awdurdod lleol yn yr ail siart cylch.

Pam mae hyn yn bwysig?
Hwyrach y bydd gan ddisgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig anawsterau dysgu penodol e.e. mewn llythrennedd.
Hwyrach y bydd rhaid i ysgolion ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn.
Hwyrach y bydd gan rai grwpiau ethnig ddeilliannau cyrhaeddiad gwaeth nag eraill.

Cwestiynu'r data
Pa gyfrannau o ddisgyblion sy'n dod o wahanol gefndiroedd ethnig?
Sawl disgybl sy'n dod o wahanol gefndiroedd ethnig?
Sut mae hyn yn cymharu â'r awdurdod lleol?
Sut mae cyrhaeddiad grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn cymharu â disgyblion eraill yn yr ysgol?
A yw canlyniadau perfformiad yn amrywio rhwng disgyblion o wahanol grwpiau ethnig?
A oes gan ddisgyblion penodol neu grwpiau penodol o ddisgyblion anghenion addysgol ychwanegol?
A oes yna gymorth ac adnoddau ychwanegol wedi'u darparu ar gyfer y rhain? A yw hyn wedi effeithio ar addysgu a dysgu yn yr ysgol?
A yw hyn wedi effeithio ar ganlyniadau cyffredinol disgyblion?
A oes unrhyw newid diweddar wedi bod yn nifer neu gyfran y disgyblion o wahanol grwpiau ethnig?
A fydd y niferoedd yn newid yn y dyfodol agos?

Siartiau 1.1c
Lefel Caffael Iaith

Cyfran y disgyblion yn ôl lefel iaith





Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r siart cylch yn dangos cyfrannau'r disgyblion yn eich ysgol ar wahanol lefelau caffael iaith ar gyfer y rheini nad ydynt yn 'rhugl' eto neu'r rheini â 'dim problemau' fel y'u cofnodwyd yn natganiad CYBLD mis Ionawr 2012. Dangosir ffigurau cymedrig yr awdurdod lleol yn yr ail siart cylch.

Noder: mae'r siart hwn yn cynrychioli dosbarthiad disgyblion 'SIY' yn unig – NID statws caffael iaith yr ysgol gyfan neu'r garfan.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae lefelau caffael iaith yn dangos pa mor rhugl y mae disgyblion (yn y Gymraeg neu'r Saesneg). Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar eu sgiliau llythrennedd cyffredinol. Mae sgiliau llythrennedd da yn galluogi disgyblion i gael mynediad haws i'r cwricwlwm ysgol ac i sicrhau gwell canlyniadau.

Cwestiynu'r data
Pa gyfran o ddisgyblion sydd ar bob lefel caffael iaith?
Sawl disgybl sydd ar bob lefel caffael iaith?
Sut mae hyn yn cymharu â'r awdurdod lleol?
Sut mae cyrhaeddiad grwpiau iaith penodol yn cymharu â disgyblion eraill yn yr ysgol?
A oes gan ddisgyblion penodol neu grwpiau penodol o ddisgyblion anawsterau llythrennedd penodol?
A oes yna gymorth ac adnoddau ychwanegol wedi'u darparu? A yw hyn wedi effeithio ar addysgu a dysgu yn yr ysgol?
A yw hyn wedi effeithio ar ganlyniadau cyffredinol disgyblion?
A oes unrhyw newid diweddar wedi bod yn nifer neu gyfran y disgyblion ar wahanol lefelau caffael iaith?
A fydd y niferoedd yn newid yn y dyfodol agos?

Siart 1.2a
Anghenion Addysgol Arbennig



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos cyfran y disgyblion yn eich ysgol sydd wedi'u dynodi ag AAA ac sy'n rhan o gynllun gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â datganiadau am y pum mlynedd diwethaf fel y'u cofnodwyd yn natganiad CYBLD. Hefyd, dangosir y ffigurau cymedrig ar gyfer yr awdurdod lleol.

Pam mae hyn yn bwysig?
Hwyrach y bydd disgyblion ag AAA o dan anfantais sylweddol o ran eu cynnydd dysgu a'u cyrhaeddiad. Yn ei dro, gall hyn effeithio ar ganlyniadau Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cwestiynu'r data
Pa gyfran o ddisgyblion sydd ym mhob cyfnod AAA?
Sawl disgybl sydd ym mhob cyfnod AAA?
Sut mae nifer y disgyblion â datganiadau'n cymharu â'r awdurdod lleol?
Sut mae cyrhaeddiad grwpiau AAA yn cymharu â disgyblion eraill yn yr ysgol?
A oes unrhyw dueddiadau amlwg?
Beth yw'r rhagfynegiadau ar gyfer niferoedd AAA yn y dyfodol?
A oes yna gymorth ac adnoddau ychwanegol wedi'u darparu ar gyfer disgyblion ag AAA?
A yw hyn wedi effeithio ar addysgu a dysgu yn yr ysgol?

A yw hyn wedi effeithio ar ganlyniadau cyffredinol disgyblion?

Siart 1.2b
Grwpiau hawl / meincnodi FSM



Grŵp meincnodi FSM - disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys am FSM

Title	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
1) Hyd at, a chan gynnwys, 10%				
2) Dros 10%, hyd at, a chan gynnwys 15%			13.84	13.72
3) Dros 15%, hyd at, a chan gynnwys 20%	17.66	15.68		
4) Dros 20%, hyd at, a chan gynnwys 30%				
5) Dros 30%				

Beth mae'r graff a'r tabl yn ei ddangos?
Mae yna 5 grŵp meincnodi cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd yn seiliedig ar gyfran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM). Mae'r tabl yn dangos y ffigur canrannol cyfartalog dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y disgyblion sydd wedi derbyn prydau ysgol am ddim yn eich ysgol am bob un o'r pum mlynedd diwethaf ac ym mha un o'r 5 grŵp yr oedd eich ysgol. Seilir dyraniad i grŵp meincnodi ar gyfartaledd 3-blynedd o hawl i brydau ysgol am ddim.
Mae'r graff yn dangos y ffigur canrannol cyfartalog dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y disgyblion sydd wedi derbyn prydau ysgol am ddim yn eich ysgol am bob un o'r pum mlynedd diwethaf o'i gymharu â'r ffigurau cymedrig ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae grwpiau meincnodi prydau ysgol am ddim yn galluogi'r broses o gymharu canlyniadau perfformiad rhwng ysgolion tebyg. Gall newid yng nghanran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim achosi ysgol i symud i wahanol grŵp meincnodi ac effeithio ar ei pherfformiad meincnodi.

Cwestiynu'r data
A yw grŵp meincnodi'r ysgol wedi newid dros amser?
A yw hyn wedi effeithio ar berfformiad meincnodi cenedlaethol yr ysgol?
A yw'r ysgol yn cael mantais neu anfantais o fod ar frig neu ar waelod yr amrediad prydau ysgol am ddim?
A yw canran y disgyblion sydd wedi derbyn prydau ysgol am ddim yn eithriadol e.e. 65%? Sut mae hyn wedi effeithio ar ganlyniadau disgyblion?

Siart 1.3a
Niferoedd Carfannau – disgyblion 15 oed



Beth mae'r graffiau yn eu dangos?
Mae Siart 1.3a yn dangos niferoedd y disgyblion, bechgyn, merched, 15 oed yn eich ysgol ar gyfer y pum mlynedd diwethaf fel y'u cofnodwyd yn natganiad CYBLD mis Ionawr.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae gan bob disgybl bwysoliad sy'n cyfrannu at ganlyniadau Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gan ddisgyblion mewn carfannau llai bwysoliad uwch. Gall cymharu perfformiad ychydig o ddisgyblion yn unig fod yn ystadegol annibynadwy.
Mae niferoedd y bechgyn a'r merched yn y garfan yn bwysig gan fod merched yn cael canlyniadau gwell na bechgyn ar y cyfan. Gall cyfran uchel o fechgyn neu ferched mewn carfan amharu ar y canlyniadau cyffredinol o gymharu â blynyddoedd eraill.

Cwestiynu'r data
Beth yw'r pwysoliad ar gyfer pob disgybl, bechgyn a merched?
Beth yw cyfran y bechgyn a'r merched yn y garfan?
A oes yna wahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched?
Beth yw dosbarthiad oedran y bechgyn a'r merched? (mae disgyblion hŷn yn perfformio'n well fel arfer).
A oes gan unrhyw ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ALN)?
A oes unrhyw rai o'r ffactorau hyn wedi effeithio ar ganlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol?

Siart 1.3b
Crynodeb Perfformiad yn y Cyfnodau Allweddol

	Ysgol					ALl	Cymru
Teitl	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2010/11	2010/11
DPC	39.46	40.94	47.10	42.75	44.07	46.64	48.03
Lefel 1	87.07	88.30	89.86	93.89	95.76	91.70	89.91
Lefel 2	51.70	54.97	57.97	52.67	67.80	65.38	66.57
Lefel 2 gan gynnwys C/S/M		40.94	47.10	42.75	46.61	47.78	49.57

Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos cyfran y disgyblion 15 oed sydd wedi cyflawni yn y dangosyddion allweddol yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf, a'r cymedrau am y llynedd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu canlyniadau disgyblion ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yn lleol ac yn genedlaethol.

Cwestiynu'r data
A oes yna duedd wedi'i nodi ar gyfer unrhyw bwnc?
A oes yna debygrwydd neu wahaniaethau rhwng y tueddiadau?
Sut mae perfformiad yr ysgol yn 2012 yn cymharu â pherfformiad yn yr awdurdod lleol a Chymru?
Beth allai fod yn gyfrifol am y perfformiadau hyn e.e. a oes unrhyw strategaethau seiliedig ar bwnc wedi'u defnyddio yn yr ysgol?
A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y pwnc hwn?

Data Perfformiad Ysgolion

Siart 1.1a

Canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg



Beth mae'r graffiau'n ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg yn eich ysgol dros y pedair blynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. I gyrraedd y trothwy hwn rhaid i ddisgybl gyflawni 100% neu fwy o'r trothwy Lefel 2 (gweler siart 1.3a) drwy gyflawni TGAU gradd C neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg ynghyd ag unrhyw gyfuniad o gymwysterau cymeradwy ar Lefel 2.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu deilliannau disgyblion a thueddiadau ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn ynghyd â rhai mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol.

Cwestiynu'r data
Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
Beth yw'r tebygrwydd?
Beth yw'r gwahaniaethau?
Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol neu drefniadau cwricwlaidd wedi'u gweithredu yn yr ysgol?
A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y dangosydd hwn?

Siart 1.3a

Canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. Mae'r Trothwy Lefel 2 yn cynrychioli lefel o ddysgu sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd A* i C.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu deilliannau disgyblion a thueddiadau ar y Trothwy Lefel 2 ynghyd â rhai mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol.

Cwestiynu'r data
A oes tuedd wedi'i ddangos ar gyfer perfformiad Trothwy Lefel 2?
A oes tuedd ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
A oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn y tueddiadau?
Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
Beth yw'r tebygrwydd?
Beth yw'r gwahaniaethau?
Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol wedi'u gweithredu yn yr ysgol?
A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y dangosydd hwn?

Siart 1.5a

Y gwahaniaeth rhwng y ganran sy'n cyflawni Lefel 2 a Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 a'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg (neu Gymraeg iaith gyntaf) a Mathemateg dros y pedair blynedd diwethaf yn eich ysgol ynghyd â'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. Mae'r graff hefyd yn dangos y gwahaniaeth yn y canlyniadau ar gyfer y ddau ddangosydd perfformiad hyn.
Pam mae hyn yn bwysig?
Gall gwahaniaeth mawr yn y canlyniadau ar gyfer y ddau ddangosydd hyn olygu bod cyfran sylweddol o ddisgyblion yn cyrraedd y Trothwy Lefel 2 drwy gwricwlwm cymysg ond nad ydynt o reidrwydd yn cyflawni safonau cyfatebol mewn sgiliau craidd iaith a mathemateg. Gallai hyn adlewyrchu pwyslais yr ysgol ar ganlyniadau cyrhaeddiad eang neu wendid o ran cyflwyno sgiliau iaith a mathemateg.
Cwestiynu'r data
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddangosydd ar gyfer yr ysgol?
Sut mae'r rhain yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
A yw'r canlyniadau hyn o fantais ynteu anfantais i ddysgwyr?
A oes goblygiadau i gynllunio'r cwricwlwm?

Siart 1.5b
Cymharu Teuluoedd o Ysgolion – Y gwahaniaeth rhwng y ganran sy'n cyflawni Lefel 2 a Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 a'r Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg yn eich ysgol o fewn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ynghyd â'r deilliannau ar gyfer aelodau eich teulu ystadegol a'r cymedr ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae gan deuluoedd o ysgolion gyd-destunau tebyg ac felly gellid disgwyl i ddeilliannau perfformiad fod yn debyg. Trwy gymharu deilliannau gwirioneddol gallwch nodi'r ysgolion hynny sydd â lefelau perfformiad uwch. Gallai hyn adlewyrchu strategaethau/ ymarfer effeithiol sy'n cael eu defnyddio mewn rhai pynciau o fewn yr ysgolion hynny.
Cwestiynu'r data
Sut rydym yn cymharu â theuluoedd eraill o ysgolion?
A oes unrhyw batrwm yn amlwg yn y cymariaethau?
Pa deuluoedd o ysgolion sydd â'r deilliannau gorau?
Beth yw'r rheswm/rhesymau am hyn?

Siart 1.6a
Canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy lefel 1



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 1 yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. Mae'r Trothwy Lefel 1 yn cynrychioli lefel o ddysgu sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd D i G.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu deilliannau disgyblion a thueddiadau ar y Trothwy Lefel 1 ynghyd â rhai mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol.
Cwestiynu'r data
A oes tuedd wedi'i ddangos ar gyfer perfformiad Trothwy Lefel 1?
A oes tuedd ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
A oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn y tueddiadau?

	Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'r teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? Beth yw'r tebygrwydd? Beth yw'r gwahaniaethau? Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol wedi'u gweithredu yn yr ysgol? A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y dangosydd hwn?
Siart 1.8a **Sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar draws pob pwnc**  	**Beth mae'r graff yn ei ddangos?** Mae'r graff yn dangos y sgôr pwyntiau wedi'i chapio gyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed yn eich ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn seiliedig ar y pwyntiau cyfartalog ar gyfer pob disgybl 15 oed ar gyfer yr holl gymwysterau ar bob gradd a gafwyd hyd at yr hyn sy'n cyfateb i gyfanswm o 8 TGAU. Ystyrir canlyniadau 'gorau' dysgwyr yn gyntaf. **Pam mae hyn yn bwysig?** Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu deilliannau disgyblion a thueddiadau ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ynghyd â rhai mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol. Gall cymharu'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio gyda'r perfformiad trothwy ddangos cryfderau arbennig ysgol a meysydd i'w datblygu. **Cwestiynu'r data** A oes tuedd yn cael ei hamlygu ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn? A oes tuedd ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? A oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn y tueddiadau? Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? A oes tebygrwydd neu wahaniaethau rhwng sgoriau pwyntiau cyfartalog a pherfformiad trothwy o'i gymharu â'r ALl, Cymru a'r ysgolion teulu? Beth yw'r tebygrwydd? Beth yw'r gwahaniaethau? Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol wedi'u gweithredu yn yr ysgol? A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol a all fod wedi effeithio ar berfformiad yn y dangosydd hwn?
Siart 1.9a **Canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd**  	**Beth mae'r graff yn ei ddangos?** Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. **Pam mae hyn yn bwysig?** Mae'r DPC yn fesur o gyrhaeddiad cyffredinol. Bydd y canlyniadau DPC ar gyfer yr ysgol yn cael eu cyfyngu bob amser gan y perfformiad gwaethaf yn y pynciau craidd. Mae'r graff yn eich galluogi i gymharu deilliannau a thueddiadau DPC ag ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol. **Cwestiynu'r data** A oes tuedd wedi'i dangos ar gyfer perfformiad DPC? A oes tuedd ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? A oes tebygrwydd neu wahaniaethau yn y tueddiadau? Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? Beth yw'r tebygrwydd? Beth yw'r gwahaniaethau? Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a yw perfformiad un pwnc craidd yn wannach?

	A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol sydd wedi effeithio ar y perfformiad DPC?
Siartiau 1.11a a 1.13a **Canran disgyblion 15 oed nad oes ganddynt gymwysterau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg amser llawn**  	**Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?** Mae'r graffiau'n dangos cyfran y disgyblion 15 oed yn eich ysgol chi sydd heb gyflawni unrhyw ganlyniadau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol chi, yr ALl a Chymru. **Pam mae hyn yn bwysig?** Mae'r graffiau'n eich galluogi i gymharu'r canlyniadau a thueddiadau ar gyfer y disgyblion sydd heb gyflawni unrhyw ganlyniadau / heb gyflawni unrhyw ganlyniadau ac wedi gadael addysg gyda'r rhai mewn ysgolion sydd â chyd-destun tebyg, yn lleol ac yn genedlaethol. **Cwestiynu'r data** A oes tueddiadau ar gyfer y dangosyddion perfformiad hyn? A oes tueddiadau ar gyfer eich teulu ystadegol chi, yr ALl a Chymru? A oes unrhyw elfennau tebyg neu wahaniaethau yn y tueddiadau hyn? Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu gyda pherfformiad eich teulu ystadegol chi, yr ALl a Chymru? Pa elfennau sy'n debyg? Beth yw'r gwahaniaethau? Beth yw'r rhesymau posibl am hyn, e.e. a oes unrhyw strategaethau penodol wedi'u gweithredu yn yr ysgol? A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol wedi effeithio ar y niferoedd sy'n cyflawni cymwysterau?
Siart 1.11b a 1.13b **Cymharu Ysgolion y Teulu - heb gymwysterau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg**  	**Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?** Mae'r graffiau'n dangos cyfran y disgyblion 15 oed yn eich ysgol sydd heb gyflawni unrhyw ganlyniadau ac yn gadael / heb fod yn gadael addysg yn eich ysgol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer aelodau eich teulu ystadegol a'r cymedrau ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. **Pam mae hyn yn bwysig?** Gan fod ysgolion sydd yn yr un teulu ystadegol yn rhannu'r un math o gyd-destun, gellid disgwyl iddynt fod â chanlyniadau tebyg o ran perfformiad. Trwy gymharu'r canlyniadau gwirioneddol, gallwch ganfod pa ysgolion sydd â'r lefelau perfformiad uchaf. Gallai hyn adlewyrchu strategaethau/arferion effeithiol a ddefnyddir mewn meysydd penodol ar draws yr ysgolion hynny. **Cwestiynu'r data** Sut ydyn ni'n cymharu gydag ysgolion eraill y teulu? A oes unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg wrth gymharu? Pa ysgolion yn y teulu sydd â'r canlyniadau gorau? Beth yw'r rheswm/rhesymau posibl am hyn? Sut mae'r patrwm ar gyfer 1.11b yn cymharu â'r patrwm ar gyfer 1.13b?

Siart 1.12a a 1.14a

Cymharu Ysgolion y Teulu – Gwahaniaethau rhwng y Rhywiau (heb gymwysterau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg)



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau (fel canran) rhwng perfformiad bechgyn a merched yn eich ysgol chi sydd heb gyflawni unrhyw ganlyniadau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer eich teulu ystadegol chi, yr ALI a Chymru. Mae'n defnyddio yr un fformat â'r graffiau blaenorol sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched.

Pam mae hyn yn bwysig?
Yn gyffredinol, mae merched yn cyflawni canlyniadau gwell na bechgyn. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau i wella perfformiad bechgyn. Gan fod ysgolion sydd yn yr un teulu ystadegol yn rhannu'r un math o gyd-destun, gellid disgwyl i'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau bechgyn a merched fod yn debyg hefyd. Trwy gymharu'r canlyniadau gwirioneddol, gallwch ganfod pa ysgolion sydd â'r gwahaniaethau lleiaf rhwng bechgyn a merched. Gallai hyn adlewyrchu strategaethau/arferion effeithiol a ddefnyddir yn yr ysgolion hynny.

Cwestiynu'r data
Sut ydyn ni'n cymharu â'r ysgolion eraill yn ein teulu ystadegol?
Pa ddangosydd perfformiad sydd â'r gwahaniaeth mwyaf a lleiaf rhwng bechgyn a merched?
A oes gwahaniaeth rhwng graffiau 1.12a a 1.14a?
A oes unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg wrth gymharu?
Pa ysgolion yn y teulu sydd â'r gwahaniaethau lleiaf rhwng bechgyn a merched ar gyfer y ddau ddangosydd perfformiad?
Beth yw'r rheswm/rhesymau posibl am hyn?
A yw'r ysgol / ysgolion eraill yn y teulu wedi gweithredu unrhyw strategaethau i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhwng canlyniadau bechgyn a merched?
A yw'r rhain wedi cael effaith ar y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched?

Siart 1.12b a 1.14b

Gwahaniaethau rhwng y rhywiau – sefydliad (heb gymwysterau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg)



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau (fel canran) rhwng perfformiad bechgyn a merched yn eich ysgol chi sydd heb gyflawni unrhyw ganlyniadau pan maent/pan nad ydynt yn gadael addysg dros y pum mlynedd diwethaf, ynghyd â'r cymedrau ar gyfer eich teulu ystadegol chi, yr ALI a Chymru. Noder y canlynol ynglŷn â'r graff:

- mae gwerth sero'n golygu nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched
- mae gwerth negatif yn golygu bod perfformiad y bechgyn islaw perfformiad y merched
- mae gwerth positif yn golygu bod perfformiad y bechgyn uwchlaw perfformiad y merched

Pam mae hyn yn bwysig?
Yn gyffredinol, mae merched yn cyflawni canlyniadau gwell na bechgyn. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau i wella perfformiad bechgyn.

Cwestiynu'r data
Sut mae'r gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched yn yr ysgol hon yn cymharu â'r gwahaniaethau o fewn eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru?
A oes unrhyw dueddiadau amlwg?

	A yw'r ysgol wedi gweithredu unrhyw strategaethau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched? A yw'r rhain wedi cael effaith ar y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched?
Siart 1.15a **Canran disgyblion 15 oed sy'n cyflawni yn ôl cymwysterau a blwyddyn: gwahaniaethau rhwng y rhywiau**  	**Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?** Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canran) rhwng bechgyn a merched ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad CA4 perthnasol dros y pum mlynedd diwethaf. Sylwer yn y graffiau bod: • gwerth sero yn golygu nad oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched • gwerth negyddol yn golygu bod bechgyn yn perfformio'n waeth na merched • gwerth positif yn golygu bod bechgyn yn perfformio'n well na merched **Pam mae hyn yn bwysig?** Ar y cyfan, mae merched yn cyflawni'n gwell canlyniadau na bechgyn. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau i wella perfformiad bechgyn. **Cwestiynu'r data** A oes tueddiadau i'w gweld? Pa ddangosydd(ion) perfformiad sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf neu leiaf rhwng y rhywiau? Beth all fod yn gyfrifol am hyn? A yw'r ysgol wedi gweithredu unrhyw strategaethau i roi sylw i'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau? A yw'r rhain wedi cael effaith ar y gwahaniaethau rhwng y rhywiau?
Siart 1.15b **Canran disgyblion 15 oed sy'n cyflawni yn ôl y prif ddangosydd perfformiad a'r sefydliad: gwahaniaethau rhwng y rhywiau**  	**Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?** Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canran) rhwng bechgyn a merched ar gyfer y set ddiweddaraf o ddata yn y prif ddangosyddion perfformiad perthnasol ar gyfer eich ysgol, ynghyd â'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru. Defnyddir yr un fformat ag yn y graff blaenorol sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y rhywiau. **Pam mae hyn yn bwysig?** Mae'n bwysig cymharu gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn yr ysgol ac mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn canfod a oes gwahaniaethau sylweddol yn gyffredinol ynteu ar gyfer dangosyddion perfformiad penodol. Gall rhai gwahaniaethau fod yn gysylltiedig â dulliau dysgu ac addysgu yn yr ysgol. **Cwestiynu'r data** Sut mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn yr ysgol yn cymharu â rhai ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru? Pa ddangosydd(ion) perfformiad sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf a lleiaf rhwng y rhywiau? Beth all fod yn gyfrifol am hyn? A yw ffigurau'r ysgolion teulu'n sylweddol wahanol i'r lleill? Beth all fod yn gyfrifol am hyn?

Siartiau 1.1b, 1.3b, 1.6b, 1.8b, 1.9b
Cymharu Ysgolion Teulu – Y Prif Ddangosyddion Perfformiad



Beth mae'r graff yn ei ddangos?
Mae'r graff yn dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r prif ddangosyddion perfformiad yn eich ysgol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer aelodau'ch teulu ystadegol a'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae ysgolion y teulu'n debyg o ran cyd-destun ac felly gellid disgwyl i ganlyniadau perfformiad fod yn debyg. Drwy gymharu perfformiad gallwch weld pa ysgolion sydd â lefelau perfformiad uwch. Gall hyn fod yn ganlyniad strategaethau / arferion effeithiol sy'n cael eu defnyddio mewn meysydd penodol yn yr ysgolion hynny.
Cwestiynu'r data
Sut ydym yn cymharu ag ysgolion eraill o'r teulu?
Beth yw'n dangosyddion perfformiad cryfaf a gwannaf?
A oes unrhyw batrwm i'w weld yn y cymariaethau?
Pa ysgolion o'r teulu sydd â'r deilliannau gorau ar gyfer gwahanol ddangosyddion perfformiad?
A oes rhai ysgolion teulu'n fwy cyson wrth sicrhau canlyniadau uwch?
Beth all fod yn gyfrifol am hyn?

Siartiau 1.1c, 1.3c, 1.6c, 1.8c, 1.9c

Prif Ddangosyddion Perfformiad Cymharu Ysgolion y Teulu – Gwahaniaethau rhwng y Rhywiau



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canrannau) rhwng bechgyn a merched ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn y prif ddangosyddion yn eich ysgol ynghyd â rhai aelodau'ch teulu ystadegol ynghyd â'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru. Defnyddir yr un fformat ag yn y graffiau blaenorol sy'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau.
Pam mae hyn yn bwysig?
Ar y cyfan, mae deilliannau merched yn well na bechgyn. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau i wella perfformiad bechgyn.
Mae ysgolion y teulu'n debyg o ran cyd-destun ac felly gellid disgwyl y byddai'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau'n debyg. Drwy gymharu canlyniadau gwirioneddol gellir gweld pa ysgolion sydd â llai o wahaniaeth rhwng y rhywiau. Gall hyn fod yn ganlyniad strategaethau / arferion effeithiol a ddefnyddir yn yr ysgolion hynny.
Cwestiynu'r data
Sut ydym yn cymharu ag ysgolion eraill o'r teulu?
Pa ddangosydd(ion) perfformiad sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf a lleiaf rhwng y rhywiau?
A oes unrhyw batrwm i'w weld yn y cymariaethau?
Pa ysgolion teulu sydd â'r gwahaniaethau lleiaf rhwng y rhywiau ar gyfer gwahanol ddangosyddion perfformiad?
A yw rhai ysgolion teulu'n fwy cyson o ran sicrhau gwahaniaethau llai rhwng y rhywiau?
Beth all fod yn gyfrifol am hyn?
A oes gan yr ysgol / a yw ysgolion eraill o'r teulu wedi gweithredu unrhyw strategaethau i roi sylw i wahaniaethau rhwng y rhywiau?
A ydynt wedi cael unrhyw effaith ar wahaniaethau rhwng y rhywiau?

Siartiau 1.2a, 1.4a, 1.7a, 1.8d, 1.10a

Tueddiadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys /disgyblion nad ydynt yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y prif ddangosyddion perfformiad wedi'i rannu rhwng y disgyblion hynny sy'n gymwys a'r disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r ffigurau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru.

Pam mae hyn yn bwysig?
Yn gyffredinol, mae disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni gwell deilliannau na disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer gwella perfformiad pob disgybl a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Cwestiynu'r data
A oes unrhyw dueddiadau o ran perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim?
Sut y mae perfformiad yr ysgol o ran disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu â'r teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?

Siartiau 1.2b, 1.4b, 1.7b, 1.8e, 1.10b

Disgyblion sy'n gymwys /disgyblion nad ydynt yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim – Cymharu Ysgolion y Teulu



Gweler yr esboniad ar gyfer y graffiau blaenorol ar gyfer cymharu ysgolion y teulu

Siartiau 2.1a, 2.2a, 3.1a, 3.2a, 4.1a, 4.2a, 5.1a a 5.2a

Perfformiad Pynciau Craidd (Lefelau 1 a 2) - % o ddisgyblion 15 oed sy'n cyflawni



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni Lefel 1 neu Lefel 2 mewn pynciau craidd yn eich ysgol dros y pum mlynedd diwethaf ynghyd â'r tueddiadau cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru.
Mae Lefel 1 yn cynrychioli cymhwyster sy'n cyfateb i raddau TGAU D i G.
Mae Lefel 2 yn cynrychioli cymhwyster sy'n cyfateb i raddau TGAU A* i C.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'r graffiau'n eich galluogi i gymharu canlyniadau a thueddiadau pynciau craidd yr ysgol â rhai mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol.
Mae canlyniadau pynciau craidd yn cyfrannu at berfformiad DPC yr ysgol.

Cwestiynu'r data
Sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â'ch teulu ystadegol, yr ALl a Chymru?
Beth yw'r tebygrwydd?
Beth yw'r gwahaniaethau?
Pa bwnc craidd sy'n dangos y perfformiad isaf / uchaf?
Beth allai fod yn gyfrifol am y rhain e.e. a oes unrhyw strategaethau neu drefniadau cwricwlaidd penodol wedi'u gweithredu yn yr ysgol?
A oes unrhyw ffactorau cyd-destunol sydd wedi effeithio ar berfformiad ar gyfer y dangosydd hwn?

Siartiau 2.1b, 2.2b, 3.1b, 3.2b, 4.1b, 4.2b, 5.1b and 5.2b

Cymharu Ysgolion y Teulu – Perfformiad Pynciau Craidd (Lefelau 1 a 2)



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni Lefel 1 a Lefel 2 mewn pynciau craidd yn eich ysgol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer aelodau'ch teulu ystadegol a'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALl a Chymru.
Mae Lefel 1 yn cynrychioli cymhwyster sy'n cyfateb i TGAU graddau D i G.
Mae Lefel 2 yn cynrychioli cymhwyster sy'n cyfateb i TGAU graddau A* to C.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae ysgolion y teulu'n debyg o ran cyd-destun ac felly gellid disgwyl i ganlyniadau perfformiad fod yn debyg hefyd. Drwy gymharu canlyniadau gwirioneddol gellir gweld pa ysgolion sydd â lefelau perfformiad uwch. Gall hyn fod yn ganlyniad strategaethau ac arferion effeithiol a ddefnyddir mewn pynciau craidd penodol yn yr ysgolion hyn.
Cwestiynu'r data
Sut ydym yn cymharu ag ysgolion eraill y teulu?
Beth yw'n pynciau craidd cryfaf a gwannaf?
A oes unrhyw batrwm i'w weld yn y cymariaethau?
Pa ysgolion teulu sydd â'r canlyniadau gorau mewn pynciau craidd?
A oes rhai ysgolion craidd yn dangos canlyniadau uwch yn gyson?
Beth all fod yn gyfrifol am hyn?

Siartiau 2.1c, 2.2c, 3.1c, 3.2c, 4.1c, 4.2c, 5.1c a 5.2c

Cymharu Ysgolion Teulu – Gwahaniaethau rhwng y Rhywiau mewn Pynciau Craidd



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau yn dangos y gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canrannau) rhwng bechgyn a merched ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn y pynciau craidd yn eich ysgol ynghyd â'r rhai ar gyfer eich teulu ystadegol a'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru.
Yr un fformat yn cael ei ddefnyddio ag yn y graffiau blaenorol sy'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau.
Pam mae hyn yn bwysig?
Gweler y nodiadau canllaw blaenorol.
Cwestiynu'r data
Gweler y nodiadau canllaw blaenorol.

Siartiau 6.1a a 6.1b

Gwahaniaethau rhwng y rhywiau – tueddiadau (Lefelau 1 a 2)



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canrannau) rhwng bechgyn a merched mewn pynciau craidd dros y pum mlynedd diwethaf. Sylwer yn y graffiau bod:
Yr un fformat yn cael ei ddefnyddio ag yn y graffiau blaenorol sy'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau.

Pam mae hyn yn bwysig?
Ar y cyfan, mae merched yn cyflawni gwell canlyniadau na bechgyn. Mae'n bwysig datblygu a gweithredu strategaethau i wella perfformiad bechgyn.

Cwestiynu'r data
A oes unrhyw dueddiadau'n dod i'r amlwg?
Pa bwnc craidd sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf neu leiaf rhwng y rhywiau?
Beth all fod yn gyfrifol am hyn?
A yw'r ysgol wedi gweithredu unrhyw strategaethau i roi sylw i wahaniaethau rhwng y rhywiau?
A yw'r rhain wedi cael effaith ar wahaniaethau rhwng y rhywiau?

Siartiau 6.2a a 6.2b

Cymharu Gwahaniaethau rhwng y Rhywiau – y sefydliad (Lefelau 1 a 2)



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos y gwahaniaethau mewn perfformiad (fel canrannau) rhwng bechgyn a merched ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn y pynciau craidd ar gyfer eich ysgol ynghyd â'r cymedrig ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru.
Yr un fformat sy'n cael ei ddefnyddio ag yn y graff blaenorol sy'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae'n bwysig cymharu gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn ysgolion tebyg o ran cyd-destun, yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn canfod a oes gwahaniaethau sylweddol yn gyffredinol neu o ran dangosyddion perfformiad penodol. Gall rhai gwahaniaethau fod yn gysylltiedig â dulliau dysgu ac addysgu yn yr ysgol.
Cwestiynu'r data
Sut mae'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn yr ysgol yn cymharu â rhai ar gyfer eich teulu ystadegol, yr ALI a Chymru?
Pa bwnc craidd sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf a lleiaf rhwng y rhywiau?

	Beth all fod yn gyfrifol am hyn? A yw'r ffigurau ar gyfer yr ysgolion teulu'n sylweddol wahanol i'r lleill? Beth all fod yn gyfrifol am hyn?
Siartiau 7.1a a 7.1b **Presenoldeb ac Absenoldeb yn yr Ysgol**  	**Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?** Mae'r graffiau yn dangos canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd, y ganran a gollwyd oherwydd absenoldebau anawdurdodedig ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn fechgyn ac yn ferched, ar gyfer y blynyddoedd 2007-11. Dangosir hefyd y ffigurau cymedrig ar gyfer yr ALl a Chymru. **Pam mae hyn yn bwysig?** Mae angen i'r disgyblion fod yn yr ysgol er mwyn dysgu. Mae angen i ysgolion ddefnyddio nifer o wahanol strategaethau i leihau absenoldeb a hybu dysgu ymhlith pob un o'r disgyblion. Mae Estyn yn cydnabod hyn wrth ddadansoddi ac adrodd ar absenoldeb mewn adroddiadau arolygu. **Cwestiynu'r data** Beth yw'r lefelau presenoldeb? Sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r ffigurau ar gyfer yr ALl ac yn genedlaethol? A oes unrhyw dueddiadau ar gyfer y disgyblion i gyd, yn fechgyn neu'n ferched? A ellir priodoli'r absenoldeb i rai disgyblion penodol yn yr ysgol? Pa strategaethau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldeb ar gyfer rhai disgyblion penodol? Pa strategaethau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldeb ar gyfer rhai disgyblion yn gyffredinol? A gafodd y strategaethau hyn unrhyw effaith ar lefelau presenoldeb?
Siart 7.2a **Cymharu Ysgolion y Teulu - Presenoldeb**	Gweler yr esboniad ar gyfer y graffiau blaenorol ar gyfer cymharu ysgolion y teulu
Siart 7.2b **Cymharu Ysgolion y Teulu - Gwahaniaeth Rhwng y Rhywiau a Phresenoldeb**	Gweler yr esboniad ar gyfer y graffiau blaenorol ar gyfer cymharu ysgolion y teulu
Siart 7.3 **Presenoldeb ac absenoldeb yn yr ysgol – tabl o'r data** 8.3 Attendance and absence - % of half day sessions Attendance & Absence Source: Pupil Attendance Record	**Beth mae'r tabl yn ei ddangos?** Mae'r tabl yn dangos canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd ac absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig ar gyfer eich ysgol am y pum mlynedd diwethaf. **Pam y mae hyn yn bwysig?** Gweler y nodiadau canllaw ar gyfer 7.1a a 7.1b. **Cwestiynu'r data** Gweler y nodiadau canllaw ar gyfer 7.1a a 7.1b.

Siartiau 8.1a, 8.3a-b, 8.4a-b, 8.5a, 8.6a-b a 8.7a-b

Perfformiad Meincnodi Cenedlaethol – Prif Ddangosyddion Perfformiad a Phynciau Craidd

8.1a Ffigur 1 – Grwpiau Meincnodi Cenedlaethol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim

Teitl	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
1) Hyd at, a chan gynnwys, 10%					
2) Dros 10%, hyd at, a chan gynnwys 15%					
3) Dros 15%, hyd at, a chan gynnwys 20%					
4) Dros 20%, hyd at, a chan gynnwys 30%		26.91	25.11	24.63	21.99
5) Dros 30%					

Ffigur 2 – Perfformiad Meincnodi Cenedlaethol – tablau yn ôl y Prif Ddangosyddion a'r Pynciau Craidd

8.5a % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni'r DPC

Teitl	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
1) Chwarter uchaf		22.77			
2) Chwarter canol uwch			32.15		
3) Chwarter canol is				28.07	
4) Chwarter isaf					28.00

Ffynonellau: Cronfa Ddata Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Ffigur 3 – Perfformiad Meincnodi Cenedlaethol - graffiau yn ôl y Prif Ddangosyddion a'r Pynciau Craidd



Beth mae'r tablau a'r graff yn ei ddangos?
Mae data cenedlaethol yn dangos cysylltiad rhwng canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion a chanlyniadau perfformiad CA4. Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad yn dirywio wrth i gymhwysedd am brydau ysgol am ddim gynyddu. Byddai'n annheg i gymharu ysgolion â ffigurau isel mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim ag ysgolion â ffigurau uchel iawn. I oresgyn hyn, mae ysgolion wedi'u gosod mewn 5 grŵp meincnodi yn seiliedig ar ganran cymhwysedd am brydau ysgol am ddim (**gweler Ffigur 1**). Dangosir y ffigurau prydau ysgol am ddim a'r grwpiau meincnodi ar gyfer eich ysgol am y pum mlynedd diwethaf ochr yn ochr â'r grwpiau meincnodi cenedlaethol ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Caiff perfformiad pob grŵp meincnodi ei ddadansoddi bob blwyddyn er mwyn pennu 4 band perfformiad. Mae 25% o'r ysgolion yn perthyn i bob band perfformiad –cyfeirir atynt fel 'chwarteri' (**gweler Ffigur 2**). Fel arfer, byddai ysgolion yn anelu at fod yn y chwartel uchaf neu'r chwarteli canol uchaf.

Os yw canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim yn eich ysgol wedi gostwng, mae'n bosibl y bydd wedi ei symud i'r grŵp meincnodi is nesaf. Bydd eich perfformiad yn awr yn cael ei gymharu ag ysgolion sydd â chanlyniadau CA4 uwch.

Os yw canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim yn eich ysgol wedi codi, mae'n bosibl y bydd wedi ei symud i'r grŵp meincnodi uwch nesaf. Bydd eich perfformiad yn awr yn cael ei gymharu ag ysgolion sydd â chanlyniadau CA4 is.
Gall newidiadau o'r fath effeithio ar eich perfformiad meincnodi hyd yn oed os bydd canlyniadau disgyblion yn aros yr un fath neu'n gwella.

Mae'r graff meincnodi a ddangosir yn **Ffigur 3** yn dangos newidiadau o'r fath yn gliriach. Mae'r llinell ysgol yn dangos sut mae perfformiad wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r tair llinell arall yn cynrychioli'r ffiniau chwartel rhwng y bandiau perfformiad 25%. Gall perfformiad ysgol aros yr un fath dros nifer o flynyddoedd ond gall ei pherfformiad meincnodi newid oherwydd bod y ffiniau chwartel wedi symud.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae data meincnodi cenedlaethol yn eich galluogi i gymharu perfformiad eich ysgol â pherfformiad ysgolion eraill lle mae'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn debyg (gan ddefnyddio canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd).

Cwestiynu'r data
Beth yw'r canlyniadau meincnodi?
Pa ddangosyddion perfformiad sydd â'r canlyniadau meincnodi gorau?
Pa ddangosyddion perfformiad yw'r gwannaf?
A oes unrhyw duedd(iadau) yn y perfformiad meincnodi?
A yw grŵp meincnodi'r ysgol wedi newid?
A yw perfformiad yr ysgol wedi newid?
Beth oedd achos y newidiadau hyn (os bu newid)?
A yw'r ysgol yn profi mantais / anfantais drwy fod ar begynau'r amrediad prydau ysgol am ddim o fewn eu grŵp?

Siart 8.5b

Perfformiad Meincnodi Cenedlaethol – Presenoldeb

Ffigur 1 –

8.5b % y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd (Noder: mae'r echelin-x yn y siart hwn yn rhedeg o

Teitl	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
1) Chwarter uchaf		89.61	90.13	89.75	89.38
2) Chwarter canol uwch					
3) Chwarter canol is					
4) Chwarter isaf					

Ffynonellau:
Asesiadau'r
Cenedlaetho
Ysgolion Blyn
Lefel Disgybl

Ffigur 2 –



Beth mae'r tablau a'r graff yn ei ddangos?
Mae data cenedlaethol yn dangos cysylltiad yn gyson rhwng canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac absenoldeb o'r ysgol. Ar y cyfan, mae absenoldeb yn cynyddu wrth i gymhwysedd am brydau ysgol am ddim gynyddu. Byddai'n annheg cymharu ysgolion sydd â ffigurau isel o ran niferoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ag ysgolion â ffigurau uchel iawn. I oresgyn hyn, mae ysgolion wedi'u gosod mewn 5 grŵp meincnodi sy'n seiliedig ar gymhwysedd am brydau ysgol am ddim (**gweler Ffigur 1**). Dangosir y ffigurau prydau ysgol am ddim a'r grwpiau meincnodi ar gyfer eich ysgol dros y tair blynedd diwethaf ochr yn ochr â'r grwpiau meincnodi cenedlaethol ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Caiff lefelau presenoldeb pob grŵp meincnodi eu dadansoddi bob blwyddyn er mwyn pennu 4 band absenoldeb. Mae 25% o'r ysgolion yn perthyn i bob band perfformiad – cyfeirir atynt fel 'chwarteri' (**gweler Ffigur 2**). Fel arfer, byddai ysgolion yn anelu at fod yn y chwarter isaf neu'r chwarter canol isaf.

Os yw canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim yn eich ysgol wedi gostwng, mae'n bosibl ei bod wedi'i symud i'r grŵp meincnodi is nesaf. O hyn ymlaen, byddwch yn cael eich cymharu ag ysgolion â lefelau absenoldeb is.

Os yw canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim yn eich ysgol wedi codi, mae'n bosibl ei bod wedi'i symud i'r grŵp meincnodi uwch nesaf. O hyn ymlaen, byddwch yn cael eich cymharu ag ysgolion â lefelau absenoldeb uwch. Gall newidiadau o'r fath effeithio ar eich perfformiad meincnodi hyd yn oed os bydd ffigurau absenoldeb disgyblion yn aros yr un fath neu'n gostwng.

Mae'r graff meincnodi a ddangosir yn **Ffigur 2** yn dangos newidiadau o'r fath yn gliriach. Mae'r llinell ysgol yn dangos sut mae lefelau absenoldeb wedi newid dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r tair llinell arall yn cynrychioli'r ffiniau chwartel rhwng y bandiau 25%. Gall ysgol berfformio ar yr un lefel am sawl blwyddyn ond gall ei pherfformiad meincnodi newid oherwydd bod y ffiniau chwartel wedi symud.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae data meincnodi cenedlaethol yn eich galluogi i gymharu absenoldeb eich ysgol gyda pherfformiad ysgolion eraill gydag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol tebyg (gan ddefnyddio canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd).

Cwestiynu'r data
Beth yw canlyniadau'r meincnodi absenoldeb?
A oes unrhyw duedd(iadau) yn y perfformiad meincnodi?
A yw grŵp meincnodi'r ysgol wedi newid?
A yw absenoldeb yn yr ysgol wedi newid?
A yw'r ysgol yn profi mantais / anfantais drwy fod ar begynau'r amrediad prydau ysgol am ddim o fewn eu grŵp?
A oes unrhyw dueddiadau ar gyfer bechgyn, merched neu'r holl ddisgyblion?
A ellir priodoli lefelau absenoldeb i ddisgyblion penodol yn yr ysgol?
Pa strategaethau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion penodol?
Pa strategaethau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag

absenoldeb yn gyffredinol?
A yw’r strategaethau hyn wedi effeithio ar bresenoldeb?

Tabl 8.1b
Perfformiad Meincnodi Cenedlaethol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim –Tabl Crynodeb

Pennawd	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
1) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg			2.00	3.00	4.00
2) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni trothwy lefel 2		4.00	4.00	4.00	4.00
3) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni trothwy lefel 1		2.00	2.00	4.00	3.00
4) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni DPC		1.00	2.00	3.00	4.00
5) Cyfansiwm sgôr pwyntiau wedi'i gapio ar draws yr holl bynciau					4.00
6) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2 mewn Saesneg		1.00	3.00	4.00	3.00
8) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2 mewn Mathemateg		2.00	1.00	3.00	3.00
9) % y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2 mewn Gwyddoniaeth		1.00	2.00	4.00	4.00

Beth mae’r tabl yn ei ddangos?
Mae’r tabl yn dangos y perfformiad meincnodi cenedlaethol ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad CA4 yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae’r rhifau’n dangos y chwarteri meincnodi ar gyfer pob pwnc yn ystod y blynyddoedd hynny.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae data meincnodi cenedlaethol yn eich galluogi i gymharu perfformiad eich ysgol ag ysgolion eraill gydag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol tebyg (gan ddefnyddio canran y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd). Gellir darllen y tabl yn llorweddol i ganfod tueddiadau mewn perfformiad ar gyfer dangosydd perfformiad penodol neu’n fertigol i weld y gwahaniaeth rhwng dangosyddion. Gall hyn eich galluogi i ganfod meysydd sydd angen sylw.
Cwestiynu’r data
Beth yw’r canlyniadau meincnodi?
Pa ddangosyddion sydd â’r safleoedd meincnodi gorau?
Pa ddangosyddion yw’r gwannaf?
Beth sy’n gyfrifol am y gwahaniaethau hyn?
A oes tuedd(iadau) mewn perfformiad meincnodi?
A yw grŵp meincnodi’r ysgol wedi newid?
A yw perfformiad yr ysgol wedi newid?
Beth oedd achos y newidiadau (os bu newid)?
A yw’r ysgol yn profi mantais / anfantais drwy fod ar begynau’r amrediad prydau ysgol am ddim o fewn eu grŵp?

Siartiau 8.2a ac 8.2b

Crynodeb meincnodi: % yn cyflawni pob dangosydd a phresenoldeb yn ôl grwp meincnodi prydau ysgol am ddim a blwyddyn

Trothwy L2 gan gynnwys C/S a M

Teitl	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
Yn y 25% uchaf					
Chwartel uwch			36.52	38.79	41.60
Yn y 50%- 25% uchaf			33.17		
Canolrif			32.66	34.04	36.58
Yn y 25% - 50% isaf				29.02	
Chwartel is			29.29	29.51	31.54
Yn y 25% isaf					30.00

Beth y mae’r tablau yn ei ddangos?

Tablau gwybodaeth yw’r rhain sy’n dangos terfynau’r meincnodau prydau ysgol am ddim ar gyfer pob un o’r prif ddangosyddion a phresenoldeb, ynghyd â pherfformiad ysgolion dros y pum mlynedd diwethaf.

Siartiau 8.8a-c

Cymharu Ysgolion y Teulu – yn unol â'r perfformiad disgwyliedig enghreifftiol



Mae'r llinell yn cynrychioli model perfformiad disgyblion llynedd o'i gymharu â'r disgyblion sydd â hawl i gael FSM a gellir ei defnyddio i ddyfalu lefel berfformio ddisgwyliedig neu 'gymhariaeth feincnod' ar gyfer pob cyfradd disgyblion sydd â hawl i gael FSM. Mae'r pwyntiau islaw'r llinell yn dynodi perfformiad is na'r disgwyl; mae'r pwyntiau uwchlaw'r llinell yn dynodi perfformiad uwch na'r disgwyl. Mae'r berthynas yn gymharol gryf a chyson rhwng un flwyddyn a'r llall, ond ni ddylid dehongli hyn fel targed ar gyfer perfformiad yn y blynyddoedd i ddod.

Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau'n dangos cyfran y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd y dangosydd perfformiad wedi'i blotio yn erbyn y canran sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r graffiau hefyd yn dangos bod y llinell yn cynrychioli perfformiad 'disgwyliedig' (neu bresenoldeb) ysgol gan ystyried ei hawl i brydau ysgol am ddim yn seiliedig ar ddadansoddiad ystadegol o'r data o holl ysgolion Cymru.

Byddai ysgol y mae ei pherfformiad gwirioneddol yn cyfateb i'w pherfformiad disgwyliedig yn gorwedd ar y llinell. Mae safle'ch ysgol yn dangos a yw deilliannau neu bresenoldeb disgyblion yn uwch na'r disgwyl (uwchben y llinell) ynteu'n is na'r disgwyl (o dan y llinell).
Presenoldeb (fel uchod). Ym mhob achos, y pellaf yn y byd oddi wrth y llinell – y mwyaf yw'r gwahaniaeth oddi wrth y perfformiad disgwyliedig.

Pam mae hyn yn bwysig?
Mae safle'ch ysgol ar y graff yn dangos pa mor agos yw perfformiad (neu bresenoldeb) gwirioneddol yr ysgol at y perfformiad (neu bresenoldeb) disgwyliedig. Gall y graff hefyd eich galluogi i ganfod pa ysgolion sydd â pherfformiad (neu bresenoldeb) uwch na'r disgwyl.

Cwestiynu'r data
A yw perfformiad (neu bresenoldeb) eich ysgol yn uwch, yr un fath, ynteu'n is na'r disgwyl?
Faint o wahaniaeth oedd rhwng y canlyniadau gwirioneddol a'r rhai disgwyliedig (ychydig – llawer?)
A oes gwahaniaeth amlwg – beth allai fod yn gyfrifol am hyn?
Pa ysgolion teulu sydd bellaf uwchben (neu o dan) y llinell?
A yw'r ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau penodol i wella perfformiad a phresenoldeb disgyblion?

Siartiau 9.1a, 9.1b

Ychwanegu Gwerth – Cymharu ysgolion y teulu yn ôl y prif ddangosyddion



Beth mae'r graffiau yn ei ddangos?
Mae'r graffiau yn dangos y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion 15 oed, o'r asesiadau athro yn CA2 neu CA3 i gyrraedd y prif ddangosyddion yn CA4 yn eich ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf ynghyd â'r deilliannau ar gyfer aelodau o'ch teulu ystadegol.

Ychwanegu Gwerth = (Union ganran y disgyblion a gafodd eu paru ac a lwyddodd i gyrraedd dangosydd penodol) – (Canran amcangyfrifedig), lle caiff y ganran amcangyfrifedig ei chyfrifo ar sail model 2b ar gyfer y disgyblion hynny sy'n 15 oed y cafodd eu cyrhaeddiad ei baru â chyrhaeddiad blaenorol.

Pam mae hyn yn bwysig?
Wrth gymharu perfformiad ysgolion mae'n bwysig cydnabod y cynnydd maent wedi cynorthwyo eu disgyblion i'w gyflawni.
Mae disgyblion sy'n dangos gwerth positif wedi perfformio'n well na'r disgwyl. Mae'r rheini sy'n dangos gwerth negatif wedi perfformio'n is na'r lefelau disgwyliedig.
Mae ychwanegu gwerth yn llai dibynadwy i fesur cyflawniad ar lefel uchel. Os yw'r cyrhaeddiad blaenorol yn uchel, gellid disgwyl yn rhesymol i'r ysgol berfformio ar lefel uchel iawn ond y mae'n mynd yn fwy anodd gwella ar y disgwyliadau a chael gwerth positif ar gyfer gwerth a ychwanegwyd.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Cwestiynu’r data
Sut rydyn ni’n cymharu ag ysgolion eraill y teulu?
Beth yw ein dangosyddion perfformiad cryfaf a gwannaf?
Ydyn ni yn uwch neu’n is na’r cyfartaledd ar gyfer y teulu?</td>
</tr>
<tr>
<td>

Siartiau 9.2a, 9.2b

Ychwanegu Gwerth – tueddiadau

Ychwanegu Gwerth CA2-4: Holl Werthoedd

Pennawd	2008/09	2009/10
1. Lefel 2 gan gynnwys C/S/M		5.37
2. Lefel 2		-3.87
3. Lefel 1		10.22
4. DPC		2.95
5. Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio		6.59

Ychwanegu Gwerth CA2-4 : Gwerthoedd arwyddocaol yn unig

Pennawd	01 Hyd 08	01 Hyd 09

</td>
<td>

Beth mae’r tablau yn ei ddangos?
Mae’r tablau yn dangos y mesurau ar gyfer y gwerth a ychwanegwyd (Union ganran – Amcangyfrif) ar gyfer y prif ddangosyddion ar gyfer eich ysgol am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae’r llythyren **S** wrth ymyl gwerth yn dynodi gwerth ‘sylweddol’ lle mae 95% o sicrwydd, gan ystyried nifer y disgyblion sy’n rhan o’r cyfrifiad, y byddai’n annhebygol y byddai’r gwahaniaeth wedi digwydd drwy siawns.
Pam mae hyn yn bwysig?
Mae’r model Ychwanegu Gwerth yn amcangyfrif y tebygolrwydd ar gyfer pob disgybl yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol a ffactorau cyd-destunol. Gan ganolbwyntio ar ffigurau sylweddol ar gyfer ychwanegu gwerth, boed yn bositif neu’n negyddol, gwelir pa rai o’r prif ddangosyddion, os oes yna rai o gwbl, sy’n dangos cynnydd sy’n annhebygol o fod wedi digwydd drwy siawns.
Cwestiynu’r data
Pa ddangosyddion sydd â gwerthoedd sylweddol ar gyfer gwerth a ychwanegwyd?
A oes tuedd i’w gweld ar gyfer unrhyw un o’r dangosyddion?
A oes tebygrwydd neu wahaniaethau yn y tueddiadau?
Beth allai fod yn gyfrifol am hyn?
Ydy’r dangosyddion i gyd heb werth sylweddol?</td>
</tr>
</table>